Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Llunio Iechyd ein Poblogaeth i'r Dyfodol

# Cynllun Iechyd Cyhoeddus Lleol Caerdydd a'r Fro

2024-27

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg*

Drafft terfynol Mawrth 2024

# Ein nod

Ein nod yw lleihau anghydraddoldebau iechyd, a gwella a diogelu iechyd pobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

# Y cynllun hwn

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i gyflawni ein nod uchod. Mae'r cynllun yn rhan o gynllun blynyddol integredig BIP Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2024-25.

Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar ein cynllun o'r llynedd, ond mae hefyd yn cynnwys gwaith newydd i ddatblygu gweledigaeth a chynllun iechyd cyhoeddus lleol hirdymor yn ystod y flwyddyn, yn dilyn cyhoeddi strategaeth Llunio ein Lles i'r Dyfodol y Bwrdd Iechyd wedi'i diweddaru yn 2023.

> **Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar ein cynllun o'r llynedd, ond mae hefyd yn cynnwys gwaith newydd i ddatblygu gweledigaeth a chynllun iechyd cyhoeddus lleol hirdymor yn ystod y flwyddyn**

Wrth i ni ddatblygu ein cynllun iechyd cyhoeddus hirdymor yn ystod y flwyddyn, rydym yn rhagweld y byddwn am roi mwy o ffocws yn y dyfodol ar nifer lai o faterion penodol i gyflawni ein gweledigaeth hirdymor. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein cynllun hirdymor a'r diweddariadau dilynol i'r cynllun hwn.

# Cyd-destun Strategol

### Polisïau, deddfwriaeth a chynlluniau cenedlaethol

Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'r cyfeiriad a nodir yn fframwaith cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2024-25, sy'n ailddatgan yr angen i newid ein gwasanaethau iechyd yn fwy tuag at atal yn hytrach na thriniaeth acíwt yn unig ('newid ymhellach ymlaen'), yn unol â'r weledigaeth a nodir yn Cymru Iachach.

> **Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'r cyfarwyddyd a nodir yn fframwaith cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2024-25, sy'n ailddatgan yr angen i symud ein gwasanaethau iechyd yn fwy tuag at atal.**

Mae ein gwaith hefyd yn cael ei lywio gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru)
- Deddf Teithio Llesol (Cymru)
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb (2010)

Rydym yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) fel rhanddeiliad cenedlaethol arbenigol ac mae ein cynllunio yn ategu gwaith strategaeth hirdymor ddiwygiedig ICC.

### Polisïau a chynlluniau rhanbarthol a lleol

Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, rydym yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r Cynlluniau Lles ar gyfer Caerdydd a'r Fro drwy ein haelodaeth o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a Chynllun Ardal Caerdydd a'r Fro drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r Cynlluniau Lles a'r Cynllun Ardal yn dod â phartneriaid ynghyd yn ein hardal i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd ar gynnal iechyd a lles ac atal afiechyd, a lleihau anghydraddoldebau, drwy weithredu ar 'ffactorau iechyd' – dyma'r ffactorau sy'n effeithio ar les, fel yr amgylchedd, tai, amddifadedd, ymddygiadau pobl, ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r Cynlluniau Lles a'r Cynllun Ardal yn seiliedig ar asesiadau pum mlynedd o anghenion ein poblogaeth: yr asesiadau Lles (ar gyfer Caerdydd a'r Fro) a'r Asesiad o anghenion y boblogaeth yn y drefn honno.

### BIP Caerdydd a'r Fro

Fel Bwrdd Iechyd fe ddiweddarom ein strategaeth hirdymor, Llunio Ein Lles i'r Dyfodol (LlELlD), yn 2023. Mae lleihau anghydraddoldebau a chynyddu ein ffocws ar atal i'w weld drwy gydol y strategaeth. Mae Llunio Ein Lles i'r Dyfodol yn nodi ein pedwar amcan lles fel Bwrdd Iechyd, sef:

- Rhoi pobl yn gyntaf
- Darparu ansawdd rhagorol
- Cyflawni yn y lleoedd cywir
- Gweithredu dros y dyfodol

> **Fel Bwrdd Iechyd fe ddiweddarom ein strategaeth hirdymor, Llunio Ein Lles i'r Dyfodol, yn 2023. Mae lleihau anghydraddoldebau a chynyddu ein ffocws ar atal i'w weld drwy gydol y strategaeth**

O fewn yr amcanion hyn, mae iechyd y boblogaeth yn arbennig o amlwg yn y ddau gyntaf, Rhoi pobl yn gyntaf a Darparu ansawdd rhagorol. Mae ein gwaith ar ffactorau amgylcheddol iechyd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cysylltu â'r pedwerydd amcan, Gweithredu dros y dyfodol. Mae'r strategaeth yn cynnwys cerrig milltir hirdymor i gynyddu disgwyliad oes, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a newid gwariant y GIG i ganolbwyntio mwy ar atal afiechyd.

Mae rhaglenni a phortffolios strategol hirdymor eisoes ar waith neu'n cael eu sefydlu os na, i gydlynu darpariaeth yn erbyn y strategaeth. Un o'r rhaglenni yw Llunio Iechyd Ein Poblogaeth i'r Dyfodol, sef ein cyfrwng ar gyfer gweithredu'r cynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd yr ydym yn ei ddatblygu.

Nodir darpariaeth weithredol o'r strategaeth yng nghynlluniau blynyddol y Bwrdd Iechyd.

### Adroddiadau Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd

Mae pob un o'n hadroddiadau Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (CIC) blynyddol yn canolbwyntio ar faes pwysig o iechyd a lles i'n trigolion, beth yw'r broblem a beth allwn ni ei wneud i'w gwella. Mae'r adroddiadau hyn yn helpu i lywio ein blaenoriaethau ynghyd â'r cyd-destun strategol ehangach, asesiadau o anghenion, sylfaen dystiolaeth a sganio'r gorwel.

Mae adroddiadau diweddar wedi canolbwyntio ar fioamrywiaeth, gwerth mewn iechyd, anghydraddoldebau, heneiddio, gweithgaredd corfforol a theithio iach.

# Ynglŷn â'n poblogaeth

## Demograffeg

Mae bron i 500,000 o bobl yn byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mae gan Gaerdydd boblogaeth gymharol ifanc, yn bennaf oherwydd poblogaeth y myfyrwyr yn y Ddinas. Mae cyfran y bobl hŷn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y Fro; mae nifer y bobl hŷn a chyfran y bobl hŷn yn cynyddu ar draws y ddwy ardal.

Mae tueddiadau blaenorol mewn twf poblogaeth yn ein hardal wedi arafu, gyda chynnydd rhagamcanol o 3-4% dros y 10 mlynedd nesaf, neu tua 15-20,000 yn fwy o drigolion.

Bob blwyddyn, mae pobl yn mudo i mewn ac allan o Gaerdydd a'r Fro. Yn 2021-22 effaith net hyn oedd tua 500 o bobl yn symud i'n hardaloedd awdurdod lleol o fannau eraill yn y DU; roedd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr ymfudwyr rhyngwladol a symudodd i'n hardal, gydag effaith net o dros 10,000 o bobl yn symud i Gaerdydd a dros 500 i'r Fro o dramor. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn cynnwys dros hanner nifer yr ymfudiadau rhyngwladol i Gymru gyfan. Mae ymfudo yn cynnwys derbyn ffoaduriaid Wcrain, Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Afghanistan (ACRS) a phoblogaethau ceiswyr lloches eraill, gan gefnogi Cymru fel cenedl noddfa.

Mae Caerdydd yn fwy ethnig amrywiol na'r rhan fwyaf o weddill Cymru, gydag ychydig dros chwarter y bobl yn nodi nad ydyn nhw'n Brydeinwyr Gwyn yng Nghyfrifiad 2021. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Bro Morgannwg oedd 8%. Yng Nghaerdydd mae hyn yn cynnwys poblogaethau sylweddol sy'n adrodd ethnigrwydd Du Affricanaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Arabaidd a Tsieineaidd; ynghyd ag ethnigrwydd gwyn nad ydynt yn Brydeinig.

Mae Caerdydd a'r Fro yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf cyfoethog Cymru, ochr yn ochr â rhai o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Yng Nghaerdydd, mae pocedi amddifadedd ledled y Ddinas ond mae llawer wedi'u lleoli yn yr 'arc ddeheuol', gan gynnwys Trelái, Caerau, Grangetown, Glan-yr-Afon, Llanrhymni a Llaneirwg; yn y Fro eto mae pocedi gwasgaredig o amddifadedd drwyddi draw, gyda chrynodiad uwch yng nghanol y Fro, yn y Barri ac o'i amgylch.

> **Mae Caerdydd a'r Fro yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf cyfoethog Cymru, ochr yn ochr â rhai o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf**

## Beth sy'n cyfrannu at ein hiechyd

Mae ein hiechyd a'n lles corfforol a meddyliol yn cael eu pennu gan amrywiaeth eang o ffactorau fel:

- Cyfansoddiad genetig;
- Yr amgylchedd ffisegol a naturiol, ein haddysg, ein gwaith, ein sefyllfa o ran tai, diogelwch cymunedol ac incwm yr aelwyd ('ffactorau ehangach iechyd');

- Ymddygiad iechyd fel p'un a ydym yn ysmygu ai peidio, ein deiet a faint o weithgarwch corfforol a wnawn – a allai yn eu tro gael eu dylanwadu gan y ffactorau ehangach, uchod; a
- Mynediad amserol at ofal iechyd o ansawdd uchel

Mae'r ffactorau hyn yn berthnasol trwy gydol oes, o gyn-beichiogi (iechyd mamol) hyd at ein datblygiad yn y groth, fel plant, oedolion ac i'n blynyddoedd diweddarach.

Er nad yw'n ymarferol yn gyffredinol newid ein ffactorau risg genetig ar gyfer clefydau, mae potensial i newid y tri grŵp arall o ffactorau (ffactorau ehangach iechyd, ymddygiadau iechyd ac ansawdd gofal iechyd), gyda'r posibilrwydd o wella ansawdd a hyd oes.

Amcangyfrifir bod dros un rhan o bump o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn rhai y gellid eu hosgoi, oherwydd cyflyrau y gellir eu hatal neu eu trin. Ar gyfartaledd, mae buddsoddiad o £1 a wnaed mewn ymyriadau iechyd cyhoeddus yn rhoi £14 yn ôl i'r gymdeithas.

> **Amcangyfrifir bod dros un rhan o bump o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn rhai y gellid eu hosgoi, oherwydd cyflyrau y gellir eu hatal neu eu trin. Ar gyfartaledd, mae buddsoddiad o £1 a wnaed mewn ymyriadau iechyd cyhoeddus yn rhoi £14 yn ôl i gymdeithas.**

### Iechyd yn ein hardal

Gallwn gael darlun o iechyd ein preswylwyr drwy asesiadau fel asesiad o anghenion poblogaeth ein rhanbarth a'r asesiadau lles (gweler Cyd-destun strategol, uchod), ynghyd ag asesiadau anghenion o iechyd unigol a data gwyliadwriaeth arferol a phwrpasol.

Materion penodol yn ein hardal sy'n effeithio ar iechyd pobl yw:

*Ffactorau ehangach*

- Mynediad at fwyd iach a fforddiadwy
- Mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da
- Ansawdd aer
- Digwyddiadau tywydd difrifol (tywydd poeth, llifogydd) oherwydd newid yn yr hinsawdd
- Mynediad at fyd natur a mannau gwyrdd, a cholli bioamrywiaeth
- Trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel, a rhwydweithiau cerdded a beicio
- Allgáu cymdeithasol ac unigrwydd

*Ymddygiadau iechyd*

- Defnyddio tybaco a fepio (e-sigarét)
- Manteisio ar imiwneiddio
- Bod yn gorfforol egnïol yn rheolaidd
- Sicrhau a chynnal pwysau iach

- Yfed alcohol

*Gofal iechyd*

- Mynediad amserol at ofal sylfaenol ac eilaidd

Nododd dros dri chwarter yr oedolion (76%) yn ein hardal eu bod mewn iechyd da neu dda iawn, y ganran uchaf yng Nghymru. Dywedodd bron i draean (31%) o bobl eu bod wedi'u cyfyngu gan un neu fwy o salwch hirdymor, ond unwaith eto dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru. Y disgwyliad oes i ddynion yn ein hardal ni yw bron i 79, a bron i 83 i fenywod. Mae'r ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru, er ychydig yn is na chyfartaledd Lloegr.

Mae nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor yn cynyddu, ynghyd â'r nifer sy'n byw gyda mwy nag un salwch. Rhagwelir y bydd nifer yr achosion newydd o ddiabetes math 2 yn benodol yn cynyddu'n sylweddol yn y degawd nesaf, ac mae deiet gwael, smygu a bod dros bwysau yn ffactorau risg hysbys.

> **Rhagwelir y bydd nifer yr achosion newydd o ddiabetes math 2 yn cynyddu'n sylweddol yn y degawd nesaf, ac mae deiet gwael, smygu a bod dros bwysau yn ffactorau risg hysbys**

### Anghydraddoldebau iechyd a chanlyniadau iechyd

Yng Nghaerdydd a'r Fro mae yna wahaniaeth mawr mewn disgwyliad oes pobl sy'n byw yn ein hardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf. Os ydych chi'n byw yn un o'n hardaloedd â'r amddifadedd lleiaf, gallwch ddisgwyl byw 8.3 blynedd yn hirach fel menyw neu 9.3 mlynedd yn hirach fel dyn, na rhywun yn ein hardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Er gwaethaf ymdrech ar y cyd i leihau'r bwlch hwn dros y degawd diwethaf, mae'r bwlch wedi cynyddu mewn gwirionedd.

> **Yng Nghaerdydd a'r Fro mae yna wahaniaeth mawr mewn disgwyliad oes pobl sy'n byw yn ein hardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf**

Mae'r bwlch hwn hyd yn oed yn ehangach wrth edrych ar flynyddoedd bywyd sy'n iach – disgwyliad oes iach. Gall pobl yn ein hardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ddisgwyl byw rhwng 14 a 18 yn llai o flynyddoedd o fywyd iach na rhywun sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf cyfoethog.

Ynghyd â chanlyniadau iechyd gwaeth, mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a ddisgrifir uchod hefyd yn waeth mewn ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

# Sut rydym yn gweithio

### Tîm iechyd y cyhoedd lleol

Rydym yn dîm iechyd cyhoeddus arbenigol bach yn BIP Caerdydd a'r Fro, wedi'i leoli yn Nhŷ Coetir yng Nghaerdydd o dan arweiniad Claire Beynon, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd.

### Gweithio mewn partneriaeth

O ystyried maint ein tîm a graddfa a natur y problemau yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw, mae ein gwaith fel arfer mewn partneriaeth ag eraill, yn y system iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd yn ehangach, gan weithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus, trydydd sector a phreifat eraill, yn ogystal â sefydliadau addysg.

> **O ystyried maint ein tîm a graddfa a natur y problemau yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw, mae ein gwaith fel arfer mewn partneriaeth ag eraill.**

Yn ogystal â gweithio trwy fecanweithiau partneriaeth ffurfiol fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chlystyrau gofal sylfaenol, rydym yn sefydlu ac yn cyfrannu at grwpiau partneriaeth sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, yn gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau unigol, neu'n ymgymryd â rôl 'arweinydd systemau', gan helpu i ddylanwadu ar ac alinio'r gwaith a wneir gan eraill ar fater penodol.

Mae rhywfaint o'n gwaith yn ymwneud â *gweithio mewn lleoliadau* megis hybu iechyd neu weithio gyda chyflogwyr, er enghraifft arwain Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn ein hardal ni**.** Mae gwaith arall yr ydym yn ei arwain neu ei gefnogi *yn seiliedig ar leoedd* mewn ardal ddaearyddol benodol, megis Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro a'r Fro sy'n Deall Dementia.

### Gweithredu drwy gydol y cwrs bywyd

Mae llawer o'n hymyriadau yn targedu grwpiau oedran penodol o'r boblogaeth, gan adlewyrchu gwahanol anghenion ac amgylcheddau y mae pobl yn eu profi wrth iddynt heneiddio. Ceir rhai enghreifftiau o'r rhain yn Ffigur 1, isod.

Mae rhai o'r camau gweithredu ar gamau penodol mewn oes yn cael eu harwain drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, trwy'r partneriaethau Dechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda, sy'n cynnwys mewnbwn iechyd cyhoeddus arbenigol. Mae hyn yn cynnwys gwaith a arweinir gan bartneriaid a'r Bwrdd Iechyd ar y blynyddoedd cynnar, ac iechyd emosiynol a meddyliol.

**Ffigur 1.** Enghreifftiau o gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd drwy gydol y cwrs bywyd

**Y blynyddoedd cynnar gan gynnwys y 1000 diwrnod cyntaf**

- Deall a mynd i'r afael ag annhegwch, gan gynnwys ar sail ethnigrwydd, yn ystod y cyfnod hwn
- Bwydo ar y fron a magu plant
- Gweithio gyda menywod beichiog sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu
- Imiwneiddiadau i fabis newydd-anedig a phlant

**Plant a phobl ifanc**

- Cynllun ysgolion iach
- Lleihau niwed o dybaco – JUSTB
- Rhaglen cyfoethogi gwyliau'r ysgol - Bwyd a Hwyl
- Pigiadau atgyfnerthu i bobl yn eu harddegau, Feirws Papiloma Dynol, ffliw
- Teithio llesol i'r ysgol

**Oedolion o oedran gweithio**

- Defnyddio tybaco
- Bwyta'n iach a gweithgaredd corfforol
- Lleoedd bwyd cynaliadwy
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau
- Teithio llesol ac iach
- Imiwneiddio pobl â risg uwch o glefyd

**Pobl hŷn (yn ogystal â'r rhai ar gyfer oedolion eraill)**

- Dementia – atal dementia a chymunedau sy'n deall dementia
- Atal cwympiadau
- Imiwneiddiadau ar gyfer y ffliw tymhorol, niwmonia niwmococol, Covid-19 a'r eryr

## Cynaliadwyedd

Gyda Sefydliad Iechyd y Byd yn datgan mai newid hinsawdd yw'r bygythiad iechyd mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth, mae cynaliadwyedd yn rhan bwysig o'n gwaith.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid a chydweithwyr i sicrhau bod pob elfen o gynaliadwyedd y cyfeirir ato yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD) - yn ddiwylliannol, amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd – yn cael eu hystyried yn ein gwaith ar y cyd. Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yw arweinydd gweithredol y Bwrdd Iechyd ar gyfer gweithredu Deddf LlCD, gyda dull llywodraethu wedi'i ddiweddaru fydd yn dechrau yn 2024-25 i integreiddio'r gwaith o lywodraethu LlCD yn llawn i weithredu strategaeth ein Bwrdd Iechyd.

Mae gofal iechyd yn cyfrannu i raddau helaeth at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae atal salwch yn well i unigolion, ac yn gyffredinol mae'n arwain at lawer llai o allyriadau carbon na'r rhai sy'n gysylltiedig â gofal iechyd os bydd salwch difrifol yn datblygu. Felly mae symud ein system iechyd 'i fyny'r afon' (h.y. cynyddu'r ffocws ar atal, fydd yn golygu bod angen llai o adnoddau ar gyfer triniaeth wedi hynny) yn gam allweddol sy'n ofynnol i leihau allyriadau carbon o ofal iechyd.

> **Mae atal salwch yn well i unigolion, ac yn gyffredinol mae'n arwain at lawer llai o allyriadau carbon**

Mae tîm iechyd cyhoeddus lleol Caerdydd a'r Fro yn cynnal Synnwyr Bwyd Cymru, cronfa o fewn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro. Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn ceisio dylanwadu ar sut y caiff bwyd ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, gan sicrhau bod bwyd, ffermio a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a ffyniannus.

Rydym wedi cyhoeddi yn ddiweddar Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Blynyddol ar fioamrywiaeth, ac wedi dechrau rhoi ei argymhellion ar waith.

Yn 2024-25 rydym yn bwriadu cwmpasu paratoadau'r BIP ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd, ac edrych ar yr arbedion carbon sy'n gysylltiedig ag atal yn fanylach ar gyfer y llwybr diabetes.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

Mae cynnwys ein cymunedau ac ymgysylltu â nhw yn hanfodol i lawer o'n gwaith. Felly, rydym yn gweithio'n agos gyda thîm cyfathrebu ac ymgysylltu’r BIP, gan gynnwys ariannu capasiti iechyd cyhoeddus penodol. Mae gan rai o'n rhaglenni eu ffrydiau cyfryngau cymdeithasol eu hunain ac mae gan Synnwyr Bwyd Cymru, sy'n cael ei gynnal yn y tîm, swydd gyfathrebu ac ymgysylltu arbenigol.

# Llywodraethu ac adrodd

Yn y tîm iechyd cyhoeddus lleol arbenigol rydym yn cynnal cyfarfodydd perfformiad mewnol rheolaidd, yn adolygu cynnydd yn erbyn ein cerrig milltir, ac yn adlewyrchu a rhannu llwyddiannau a heriau.

Rydym yn cynnal sesiynau dysgu a datblygu tîm lle rhoddir amser neilltuedig i staff ar gyfer eu datblygiad proffesiynol, gyda siaradwyr mewnol ac allanol.

> **Yn y tîm iechyd cyhoeddus lleol arbenigol rydym yn cynnal cyfarfodydd perfformiad mewnol rheolaidd, yn adolygu cynnydd yn erbyn ein cerrig milltir, ac yn adlewyrchu a rhannu llwyddiannau a heriau**

Mae gan lawer o'n rhaglenni gwaith elfennau sydd hefyd yn adrodd yn allanol, er enghraifft i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro, Llywodraeth Cymru, neu gyllidwyr penodol. Yn ogystal, rydym yn adrodd am rai dangosyddion perfformiad allweddol penodol (e.e. ar gyfer imiwneiddio, tybaco a phwysau iach) o fewn adroddiadau perfformiad ehangach y BIP.

Mae cofrestr risg adrannol yn cael ei chadw a'i hadolygu'n rheolaidd, ac mae risgiau sylweddol yn cael eu huwchgyfeirio i gofrestr risg y BIP os yw'n briodol.

# Ein blaenoriaeth ar gyfer 2024-27

Ein blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer 2024-27 fydd imiwneiddio, ysmygu a phwysau iach (lleihau lefelau gordewdra). Bydd atgyfnerthu ein system diogelu iechyd ranbarthol yn rhedeg ochr yn ochr â'r rhain, a bydd lleihau anghydraddoldebau iechyd a gweithredu ar ffactorau ehangach iechyd yn ymwneud â'n holl ffrydiau gwaith.

## Ein blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer 2024-27 fydd imiwneiddio, ysmygu a phwysau iach

Byddwn hefyd yn gweithio ar faterion eraill sy'n arwyddocaol i iechyd ein poblogaeth, a bydd llawer ohonynt hefyd yn effeithio ar y blaenoriaethau lefel uchel.

Yn ystod 2024 byddwn yn datblygu cynllun iechyd cyhoeddus hirdymor ar gyfer ein hardal i ategu ac adeiladu ar y weledigaeth a nodir yn strategaeth Llunio Ein Lles i'r Dyfodol wedi'i diweddaru y Bwrdd Iechyd.

Mae crynodebau o rai o'n rhaglenni gwaith arbenigol allweddol yn dilyn; nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol. Bydd y cynlluniau hyn yn parhau i ddatblygu ac ymateb i bolisi ac anghenion newidiol yn ystod 24-25, a'r gwaith o ddatblygu ein cynllun hirdymor.

# Symud Mwy, Bwyta'n Dda: Ymagwedd Systemau Cyfan

**Arweinwyr y tîm:** Suzanne Wood a Rebecca Stewart

**Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?**

- Dull cydweithredol o greu newid, sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth gyffredin ar gyfer Symud Mwy, Bwyta'n Dda, wedi'i yrru gan lawer o bartneriaid o bob rhan o'r system (gan gynnwys cymunedau)
- Gwella cysylltedd ac aliniad systemau
- Creu amgylcheddau, lleoliadau ac amodau iach sy'n galluogi ac yn helpu pobl o bob oed i symud mwy a bwyta'n dda i gefnogi pwysau iach

**Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?**

- Sicrhau bod dull cyffredinol a chymesur yn cael ei fabwysiadu, gyda chamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar grwpiau poblogaeth mwy difreintiedig ac agored i niwed
- Defnyddio'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i dargedu a rhoi newid ar waith

**Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?**

- Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, BGCau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro, Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus, Ysgolion a Lleoliadau Cyn Ysgol, Maeth a Deieteteg, Ysgolion Iach a Thimau Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy, Chwaraeon y Met, Tîm Byw'n Iach y Fro, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, GGM, sefydliadau'r Trydydd Sector, Partneriaethau Bwyd, Cymunedau, Rhwydwaith Ymagwedd Systemau Cyfan at Systemau Pwysau Iach, Llywodraeth Cymru

**Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)**

- Perthnasoedd cryfach rhwng 'actorion allweddol' yn y system
- Cydweithio yn rhoi newid ar waith yn cyd-fynd â'r weledigaeth gyffredin
- Lefelau is o anweithgarwch/mwy o ffrwythau a llysiau'n cael eu bwyta gan blant ac oedolion sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg
- Lefelau uwch o blant ac oedolion o bwysau iach

**Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?**

- Deall a monitro'r newid/effaith i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig/grwpiau poblogaeth agored i niwed

**Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)**

- Cwblhau fframwaith SMBI diwygiedig (2024-2030)
- Datblygu a chyflawni yn erbyn Cynllun Gweithredu 2024-25
- Ymgysylltu a chynnull partneriaid o bob rhan o'r system i roi gweithredu cydweithredol ar waith a chreu newid
- Ymgysylltu â chymunedau; ceisio dealltwriaeth, datblygu dealltwriaeth gyffredin o heriau cymunedol, galluogwyr, asedau cymunedol a chyfleoedd i greu newid ar y cyd

**Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)**

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Lansio Fframwaith SMBI (2024-2030)<br>• Sefydlu trefniadau arwain a llywodraethu ar gyfer Fframwaith SMBI (2024-2030)<br>• Cytunwyd ar gynllun gweithredu SMBI ar gyfer 2024-25 a dechreuodd y gwaith o'i gyflawni |
| Ch2 | • Cynnydd yn y gwaith o gyflawni cynllun gweithredu SMBI (2024-25)<br>• Sefydlwyd dull monitro a gwerthuso |
| Ch3 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |
| Ch4 | |

**Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)**

- I'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd

# Symud mwy: gweithgaredd corfforol

**Arweinydd y tîm:** Lauren Idowu

### Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Mae partneriaid yn glir am eu rôl o ran cyflawni pwrpas, gweledigaeth a chenhadaeth y strategaeth gweithgaredd corfforol
- 'Symud mwy' i fod yn elfen graidd Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De
- Mabwysiadu dull systemau o weithio
- Mwy o bobl yn byw bywydau egnïol, a lefelau gweithgarwch cynyddol yn ein cymunedau lleiaf egnïol

### Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Sicrhau ein bod yn cymryd ymagwedd gyffredinol a chymesur, gan sicrhau bod gwaith yn canolbwyntio ar ble mae'r angen mwyaf (yn unol â 'Sut y byddwn yn gweithio' yn y strategaeth)
- Byddwn yn canolbwyntio ar gymunedau sydd â'r lefelau uchaf o anweithgarwch: cymunedau difreintiedig; menywod a merched; y rhai sy'n byw gydag anabledd neu salwch hirdymor; pobl o gefndiroedd Asiaidd a du; a phobl hŷn ym Mro Morgannwg

### Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

- Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg (sawl adran), Prifysgol Met Caerdydd, Tîm Chwaraeon Met Caerdydd, CAWR, Prifysgol Caerdydd, darparwyr hamdden GLL, Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, GGM, a llawer o sefydliadau trydydd sector eraill, gofal sylfaenol, ysgolion, cyrff anllywodraethol ar gyfer chwaraeon, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

### Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)

- Sgôr matrics aeddfedrwydd uwch ar gyfer yr amodau sy'n ofynnol i newid lefelau anweithgarwch corfforol a chyflawni'r Strategaeth Symud Mwy Caerdydd ar gyfer Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon
- Lleihau lefelau anweithgarwch corfforol yn ein cymunedau lleiaf egnïol

### Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?

- Rhoi ffocws dwys ar ddata sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau mewn gweithgarwch corfforol yng Nghaerdydd a'r Fro (chemisol), a dylanwadu ar y dadansoddiad sydd ar gael ar gyfer data Arolwg Cenedlaethol Cymru

### Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

- Hwyluso'r broses o gyflawni Cynllun Gweithredu Blwyddyn 2 Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Symud Mwy Caerdydd gyda phartneriaid
- Dod â phartneriaid at ei gilydd i gyd-gynhyrchu Cynllun Gweithredu Blwyddyn 3 Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Symud Mwy Caerdydd, a chyflawni'r camau gweithredu ynddo.
- Rhannu a thyfu gweithio a dysgu seiliedig ar systemau ymhlith partneriaid, a pharhau i meithrin perthnasoedd a chreu'r amodau ar gyfer newid
- Parhau i weithio i fewnbynnu a llywio Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De, gan ddarparu mewnbwn iechyd cyhoeddus

### Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Hyfforddiant a dysgu arweinyddiaeth systemau<br>• Mwy o sefydliadau, dyfnder y perthnasoedd a chysylltedd ar draws agendâu |
| Ch2 | • Ceisio cyfleoedd ariannu i gynyddu capasiti<br>• Digwyddiad dathlu ar gyfer blwyddyn 1<br>• Cefnogi pontio Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De |
| Ch3 | • Datblygu data gweithgarwch corfforol |
| Ch4 | • Ymrwymiad i ddefnyddio data agored i ddatblygu porth ar gyfer cyfleoedd gweithgarwch corfforol, a chysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol |

### Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)

- I'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd

# Symud Mwy, Bwyta'n Dda: Safonau Bwytai a Manwerthu

**Arweinydd y tîm:** Rhianon Urquhart

### Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Gwella'r cynnig bwyd yn systematig ym mhob un o'n siopau bwyd a bwytai a gynhelir gan y BIP
- Gwella'r cyfleoedd i gynnig opsiynau iach ar gyfer bwyd a diod ar draws ein holl allfeydd a chyda'n partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

### Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Ein nod yw sicrhau bod opsiynau iach ar gael i bob cwsmer, gan gynnwys cynnig prydau iach i staff ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r siopau bwyd a gynhelir gan y BIP. Drwy gyflwyno opsiwn iach fforddiadwy, ein nod yw gwneud opsiynau iach yn hygyrch i staff ar fandinau is

### Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

- Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Arlwyo, Caffael, Deieteg Iechyd y Cyhoedd, Cynaliadwyedd / Cynllunio Strategol , Tîm cyfathrebu, Synbiotix / partneriaid allanol eraill fel y bo'n briodol, cyflenwyr, partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

### Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)

- Gostyngiad yn argaeledd y byrbrydau nad ydynt yn iach a chynhyrchion melys sydd ar gael
- Gwella cydymffurfiad cyffredinol ar draws yr holl allfeydd bwyd sy'n cael eu cynnal gan y BIP

### Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?

- Byddwn yn cynnal arolygon staff i asesu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig prydau Dydd Mercher Lles – drwy weithio gyda'r Tîm Profiad Cleifion byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau staff i benderfynu a ydym yn diwallu anghenion staff ar fandiau cyflog is.
- Byddwn yn defnyddio'r data adeg gwerthu i fonitro tueddiadau prynu yn y siopau.

### Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

- Parhau i ddatblygu'r Safonau Bwytai a Manwerthu i gyd-fynd yn well â rhaglenni strategol allweddol yn y BIP – er enghraifft cynaliadwyedd
- Parhau i fonitro cydymffurfiaeth gyffredinol â'r Safonau, gan ddefnyddio'r offeryn archwilio
- Dychwelyd at y targed gwreiddiol o sicrhau bod 75% o fwydydd yn cydymffurfio erbyn mis Tachwedd 2024
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynyddu cyrhaeddiad y Safonau o fewn sefydliadau partner, lle bo hynny'n briodol
- Rhannu arfer da gyda phartneriaid ehangach i gefnogi datblygiad parhaus y Safonau

### Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Ymgysylltu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus i rannu dysgu a'u helpu i ddatblygu safonau bwyta'n dda<br>• Cynnal gweithdy gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i nodi a chytuno ar gamau gweithredu ar gyfer dyfodol y Safonau, sy'n cyd-fynd â thargedau cynaliadwyedd, caffael, iechyd ac ariannol y BIP.<br>• Sefydlu rhwydwaith gyda phartneriaid byrddau iechyd eraill ledled Cymru i rannu dysgu a nodi atebion ar gyfer datblygu'r gwaith amgylchedd bwyd iach mewn ysbytai ymhellach. |
| Ch2 | • Canolbwyntio ar wella cydymffurfiaeth byrbrydau a chynnyrch melys ar draws ein siopau manwerthu, gan mai dyma'r maes sy'n cydymffurfio leiaf |
| Ch3 | • Dychwelyd at y targed gwreiddiol o sicrhau bod 75% o fwydydd yn cydymffurfio â gofynion yr ADPh |
| Ch4 | Pennu cerrig milltir Ch4 yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |

### Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)

- I'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd

# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

**Arweinwyr y tîm:** Louise Denham (Bwyd y Fro) a Pearl Costello (Bwyd Caerdydd)

## Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Bwyta mwy o lysiau
- Gostyngiad yng nghanran dinasyddion Caerdydd a'r Fro sy'n wynebu ansicrwydd bwyd

## Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Targedu cefnogaeth i brosiectau bwyd sy'n gweithredu mewn ardaloedd o amddifadedd uwch ledled Caerdydd a'r Fro.
- Cefnogi mentrau ehangach fel Cyflog Byw a sicrhau'r buddion mwyaf posibl fel bod gan fwy o bobl yr adnoddau ariannol i fforddio bwyd.

## Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

**Bwyd y Fro**

- Cyngor y Fro
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
- Tyddynwyr Morgannwg
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- FareShare Cymru
- Cymdeithas Dai Newydd
- Cymdeithas Dai Hafod
- BGC y Fro
- Cywain
- Big Fresh Catering
- Deieteg y BIP

**Bwyd Caerdydd**

*Bwrdd Strategaeth:*

- Cyngor Caerdydd
- Deieteg Iechyd y Cyhoedd
- Gweithredu yng Nghaerau a Threlái
- Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Gorllewin Lloegr
- WWF Cymru
- Ymgyrchwyr Annibynnol

*Grŵp Tlodi Bwyd:*

- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
- Cyngor Caerdydd
- Banc Bwyd Caerdydd
- FareShare Cymru
- Ysgol Fusnes Caerdydd
- Deieteg Iechyd y Cyhoedd

*Cydweithfa Bwyd Cymunedol Caerdydd*

Dros 70 o unigolion o sefydliadau llawr gwlad ac asiantaethau cymorth sy'n gweithio ym maes bwyd cymunedol

*Mae partneriaeth Bwyd Caerdydd yn cynnwys dros 100 o sefydliadau*

## Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

**Bwyd y Fro**

- Datblygu Rhwydwaith Bwyd y Fro drwy gyfarfodydd chwarterol a chymorth rhwng cyfoedion
- Dylanwadu'n strategol ar bolisïau a chamau gweithredu lleol
- Dechrau datblygu cais Gwobr Arian SFP
- Trefnu, hyrwyddo a chyflwyno Llwybr Bwyd blynyddol y Fro, gyda gweithgareddau bwyd iach a chynaliadwy yng Ngŵyl Fwyd y Bont-faen
- Cyhoeddi canfyddiadau gwaith ymchwil ac ymgysylltu Ansicrwydd Bwyd y Fro
- Cydlynu Astudiaeth Ddichonoldeb Cegin Gymunedol/masnachol
- Cyflawni camau gweithredu Prosiect Bwyd Llanilltud 3
- Mapio Tir Cydlynu'r Fro
- Llunio cais am gyllid tymor hwy (Grant Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol o bosibl)
- Cefnogi prosiect peilot i gynnwys cynnyrch lleol mewn prydau ysgol

**Bwyd Caerdydd**

- Datblygu Rhwydwaith Bwyd Caerdydd drwy gyfarfodydd rheolaidd a chymorth rhwng cyfoedion
- Dylanwadu'n strategol ar bolisïau a chamau gweithredu lleol
- Gwneud cais am Wobr Aur SFP
- Trefnu, hyrwyddo a chyflwyno Gŵyl Hydref flynyddol Bwyd Da Caerdydd, gan gynnwys Ardal Bwyd Da Caerdydd yng Ngŵyl Fwyd Amgueddfa Cymru
- Cefnogi prosiect peilot i gynnwys cynnyrch lleol mewn prydau ysgol
- Cyhoeddi canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb Cadwyni Cyflenwi Cymunedol a chyfleoedd ymchwil i fwrw ymlaen ag argymhellion
- Cefnogi'r cynllun peilot Cerdyn Planed Pontio'r Bwlch, i wella mynediad at ffrwythau a llysiau organig i gymunedau ymylol ar incwm isel
- Llunio cais am gyllid tymor hwy (Grant Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol o bosibl)
- Dechrau datblygu Strategaeth Bwyd Da Caerdydd nesaf

**Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)**

- Canran y preswylwyr sy'n teimlo bod yna fudiad bwyd da yng Nghaerdydd a'r Fro
- Nifer yr aelodau ym mhartneriaethau Bwyd Caerdydd a'r Fro

**Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?**

- % y bobl sy'n wynebu ansicrwydd bwyd

**Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)**

| | Bwyd y Fro | Bwyd Caerdydd |
|---|---|---|
| Ch1 | • Llwybr Bwyd y Fro wedi'i drefnu, ei hyrwyddo a'i gyflwyno<br>• Cwblhau'r holl dendrau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin | • Cynnal Uwchgynhadledd Bwyd<br>• Cyhoeddi arolygon Gwobr Aur, cynnal grwpiau ffocws a llunio'r adroddiad |
| Ch2 | • Cyhoeddi Strategaeth Bwyd y Fro | • Cyflwyno ar gyfer y Wobr Aur<br>• Cynnal Gŵyl yr Hydref |
| Ch3<br>Ch4 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd | |

**Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)**

**Bwyd y Fro**

- Ennill Gwobr Arian Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
- Cais am gyllid mwy i'r Loteri Genedlaethol
- Gweithredu Strategaeth Bwyd y Fro

**Bwyd Caerdydd**

- Cyhoeddi Strategaeth Bwyd Da Caerdydd newydd
- Sicrhau cyllid tymor hwy

# Arweinyddiaeth strategol ar imiwneiddio

**Arweinydd y tîm:** Dr Dino Motti

### Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Mwy o blant yn manteisio ar frechiadau, yn enwedig MMR
- Mwy o staff gofal iechyd yn manteisio ar frechiadau
- Mwy o bobl sy'n agored i niwed yn manteisio ar frechiadau, a chynnal y niferoedd hynny
- Mwy o gydraddoldeb o ran y bobl sy'n manteisio ar frechiadau, gan ganolbwyntio ar yr anghydraddoldebau y mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu.

### Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Trefnu trafod, mewn modd cynlluniedig ac oportiwnistaidd, ag aelodau o boblogaethau lleiafrifoedd ethnig ynghyd â chyfieithwyr ar y pryd os oes angen, i'w hysbysu am bwysigrwydd brechiadau a chwalu unrhyw fythau neu gamddealltwriaeth
- Cefnogi'r ymdrech frechu mewn ysgolion drwy ffurfio a hyfforddi tîm o wirfoddolwyr ymhlith rhieni ac aelodau'r gymuned i gyrraedd mwy o bobl drwy rwydweithiau cymdeithasol.
- Adolygu'r wybodaeth a'r broses ar gyfer trefnu brechiadau mewn lleoliadau gofal sylfaenol i leihau nifer y bobl nad ydynt yn dod i'w hapwyntiadau brechu
- Ymgysylltu â chymuned yr ysgol gyfan i feithrin cydberchnogaeth o'r amcan o frechu disgyblion ac athrawon fel ei gilydd (cwrdd â chyfarwyddwyr addysg a chyflwyno gweminar i benaethiaid ac athrawon)
- Targedu ymgyrchoedd ar y cyfryngau i ardaloedd lle mae nifer isel yn manteisio ar frechiadau, sy'n cyd-fynd yn aml ag ardaloedd o amddifadedd uwch a phoblogaethau lleiafrifoedd ethnig

### Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

- Partneriaid mewnol yn y tîm brechu torfol, nyrsys ysgolion, gofal sylfaenol a thimau cyfathrebu.
- Partneriaid allanol a rhanddeiliaid mewn cynghorau lleol, ysgolion, rhieni, cymunedau a'u harweinwyr

### Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)

- Mwy o frechu, llai o fwlch mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig

### Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?

- Cynnydd yn nifer y bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau statws economaidd-gymdeithasol is eraill sy'n manteisio ar frechiadau

### Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

- Arwain yn strategol y portffolio imiwneiddio (y ffliw, brechiadau plentyndod a COVID-19) ar draws y BIP, gan weithio gyda'r arweinyddiaeth weithredol i sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu hymgorffori yn weithredol ac ar draws y system. Hefyd, archwilio'r cyfle i wella o ran yr agwedd ddigidol ar imiwneiddio.
- Arwain a chydlynu gyda'r tîm brechu ysgolion, awdurdodau lleol, cyfathrebu, tîm brechu torfol a chydlynwyr brechu i nodi a defnyddio modelau amgen ochr yn ochr â darpariaeth gofal sylfaenol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt i fynd i'r afael â'r risg o achosion mawr o'r frech goch yng Nghaerdydd a'r Fro.
- Adolygu ac ehangu'r model o hyrwyddwyr brechu ar gyfer ymgyrch brechu yn erbyn feirysau'r gaeaf i staff y bwrdd iechyd gyda'r nod o frechu'n agosach i'r gweithle.

### Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Rhoi'r rhaglen frechu ysgolion ar waith ar gyfer MMR a Feirws Papiloma Dynol |
| Ch2 | • Cyflawni targed Cylchlythyr Iechyd Cymru o 90% o frechiadau MMR ym mhob ysgol erbyn diwedd Gorffennaf 2024 |
| Ch3 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |
| Ch4 | |

### Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)

- I'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd

# Tybaco

**Arweinwyr y tîm:** Dr Sian Griffiths a Catherine Perry

### Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Cyflawni 'poblogaeth ddi-fwg' (lleihau cyffredinrwydd ysmygu i 5%) erbyn 2030 - gan adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Strategaeth Rheoli Tybaco Cymru 2022-2030
- Cynyddu cyfradd yr ysmygwyr sy'n cymryd rhan yng Ngwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu'r GIG ac sy'n rhoi'r gorau i ysmygu
- Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu a fêpio

### Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Bydd gweithio mewn partneriaeth i leihau cyfraddau ysmygu ym mhob poblogaeth – gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas (lle mae cyfraddau ysmygu ar eu huchaf) yn golygu gwella mynediad at gymorth rhoi'r gorau i ysmygu'r GIG a chynhyrchion ffarmacolegol i helpu i roi'r gorau i ysmygu, gan archwilio ymarfer arloesol, atgyfnerthu deddfwriaeth a lleihau effaith ysmygu ar blant a phobl ifanc. Bydd ffocws ar bobl o oedran gweithio mewn ardaloedd sy'n profi amddifadedd.

### Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

- Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu'r GIG; gwasanaethau gofal eilaidd, yn enwedig gwasanaethau mamolaeth a bwrdd clinigol iechyd meddwl; Gwasanaethau contractwyr gofal sylfaenol; Safonau Masnach; Trydydd Sector; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Llywodraeth Cymru

### Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)

- Canran yr oedolion sy'n adrodd eu bod yn ysmygwyr ar hyn o bryd
- Canran yr ysmygwyr sy'n oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu y GIG ac sy'n dod yn ysmygwr sydd wedi cael cymorth, ac o'r rheini, canran y rhai sy'n rhoi'r gorau i ysmygu ar ôl 4 wythnos
- % yr ysmygwyr beichiog sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu yn dilyn eu hasesiad cychwynnol
- % y bobl feichiog sy'n cael profion CO yn eu hasesiad cychwynnol

### Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?

- Gostyngiad mewn cyffredinrwydd ysmygu mewn ardaloedd o amddifadedd uchel
- Cynnydd yn nifer y fferyllfeydd Cymunedol mewn ardaloedd o amddifadedd uwch sy'n cynnig Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Smygu Uwch L2 a L3

### Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

- Rhoi cymorth iechyd cyhoeddus i dimau BIP sy'n hwyluso'r gwaith o roi system cofnod electronig am gleifion ar waith yn genedlaethol i gofnodi statws ysmygu cleifion wrth gael eu derbyn i'r ysbyty a'u cyfeirio at Wasanaeth Rhoi'r Gorau i Smygu y GIG
- Gweithredu rhaglen Smygu mewn Beichiogrwydd sy'n gwella ymgysylltiad â Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu'r GIG ac sy'n lleihau cyfraddau smygu mewn beichiogrwydd
- Cyfleu negeseuon cyson a chywir i'r cyhoedd ynghylch fêpio
- Sicrhau bod pob person beichiog sy'n dod i wasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd yn cael profion carbon monocsid yn eu hasesiad cychwynnol
- Sicrhau bod yr holl ysmygwyr beichiog yn cael eu hatgyfeirio at gymorth rhoi'r gorau i smygu yn dilyn eu hasesiad archebu cychwynnol.
- Nodi a gweithredu model mwy cynaliadwy ar gyfer gorfodi gwaharddiadau smygu ar safleoedd ysbytai

### Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Datblygu model gwasanaeth i gysylltu'n fwy â menywod beichiog sy'n ysmygu, gyda chefnogaeth gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu'r GIG |
| Ch2 | • Cadarnhau'r model y cytunwyd arno ar gyfer gorfodi gwaharddiadau ysmygu ar safleoedd ysbytai. |
| Ch3 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |
| Ch4 | |

### Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)

- I'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd

# Alcohol

**Arweinydd y tîm:** Lauren Idowu

### Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Gwella’r broses o nodi lefelau yfed uwch yn gynnar mewn gofal sylfaenol ac wrth gael mynediad at ofal eilaidd
- Economi’r nos sy'n ddiogel ac sy’n cefnogi amrywiaeth o weithgareddau i gymdeithasu heb alcohol
- Lleihau niwed o yfed alcohol

### Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Mabwysiadu dull cyffredinol a chymesur o wella’r broses o nodi yfed niweidiol a pheryglus yn gynnar (gwyddom fod ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn profi lefelau uwch o salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol)
- Codi ymwybyddiaeth o'r paradocs niwed alcohol a'r angen i dargedu anghydraddoldebau (mae pobl yn ein cymunedau â’r amddifadedd mwyaf yn profi lefelau uwch o salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol na'r rhai o gymunedau â’r amddifadedd lleiaf, er gwaethaf yfed lefelau tebyg o alcohol - roedd cyfran yr holl gleifion gafodd eu derbyn am gyflyrau sy'n benodol i alcohol oedd yn byw yn yr ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf 2.7 gwaith yn uwch na'r rhai o ardaloedd â’r amddifadedd lleiaf)

### Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

- Llawer o adrannau o fewn y BIP (timau dibyniaeth, hepatoleg, adran frys, GSCCh), y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA), gwasanaethau trin cyffuriau ac alcohol Caerdydd a’r Fro, Tîm Trwyddedu'r Heddlu, Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, partneriaid PAG (gan gynnwys FOR Cardiff, prifysgolion, SU), Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Alcohol Change Cymru, defnyddwyr gwasanaeth a Recovery Cymru.

### Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)

- Gwell systemau a phrosesau yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau i nodi cleifion sydd mewn perygl o niwed o alcohol, a chynnig gwybodaeth, cyngor neu atgyfeiriad (a gwell mecanweithiau cofnodi data), o'i gymharu â chanlyniadau archwilio mewnol o 2023/24

### Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?

- Mae defnyddio data i olrhain sgrinio a nifer y bobl sy’n manteisio ar ein gwasanaethau yn cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf (systemau adrodd am ddata i'w sefydlu)

### Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

- Gofal eilaidd – sicrhau bod argymhellion yn Adroddiad Archwilio Mewnol Safonau Alcohol (2024) yn cael eu gweithredu
- Pennu cwmpas pa argymhellion y gellir eu rhoi ar waith o'r adroddiad ymchwil gofal sylfaenol (gweithgarwch cyfredol ar gyfer nodi yfed lefelau niweidiol o alcohol yn gynnar mewn gwasanaethau gofal sylfaenol ar draws Caerdydd a’r Fro)
- Gyrru gwaith Cynllun Gweithredu Partneriaeth Alcohol Gymunedol Caerdydd (CAP) 2023-24, i wella diogelwch a lleihau'r risg i bobl ifanc 18-25 oed sy'n yfed alcohol yn economi'r nos.
- Gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol dan Ddeddf Trwyddedu 2003 i gyfrannu at leihau trais, damweiniau ac anafiadau cysylltiedig ag alcohol o fewn economi'r nos drwy weithio gyda deiliaid trwydded a thimau trwyddedu yn yr awdurdod lleol a'r heddlu i ddylanwadu ar newidiadau yng ngweithrediad safleoedd trwyddedig

### Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Penodi Rheolwr Prosiect Alcohol a chytuno ar gynllun gwaith<br>• Archwilio ffynonellau cyllid ar gyfer PAG i ehangu capasiti |
| Ch2 | • Datblygu cynllun ar gyfer gweithredu argymhellion gofal sylfaenol |
| Ch3<br>Ch4 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |

### Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)

- I’w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd

# Partneriaeth diogelu iechyd integredig

**Arweinydd y tîm:** Dr Siân Griffiths

## Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Lleihau'r niwed a achosir gan glefydau trosglwyddadwy mewn pobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg
- Lleihau annhegwch o ran effaith clefydau trosglwyddadwy ar bobl, grwpiau a lleoliadau sy'n fwy agored i niwed
- Cyflawni partneriaeth diogelu iechyd integredig 'pob perygl' effeithiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg
- Paratoi ar gyfer bygythiadau clefydau trosglwyddadwy yn y dyfodol, gan gynnwys pandemigau yn y dyfodol

## Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Nodwyd Grwpiau Cynhwysiant Iechyd fel blaenoriaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau a buddsoddi

## Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

- Gwasanaethau a thimau BIP Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys: Diogelu Iechyd/ Brechu Torfol; TB; AIRh; Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro; Clefydau Heintus; Atal a Rheoli Heintiau.
- Gwasanaethau Contractwyr Gofal Sylfaenol
- Diogelu Iechyd Arbenigol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
- Awdurdod Lleol Caerdydd
- Awdurdod Lleol Bro Morgannwg

## Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)

- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu brechu
- Dangosyddion hepatitis B ac C (ar gyfer atal, diagnosis a thriniaeth)

## Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?

- Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro - gweithio gyda'r gwasanaeth i ddeall anghenion diogelu iechyd grŵp iechyd cynhwysiant a'r gwelliannau a wnaed i gael mynediad at atal a thriniaeth briodol

## Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

- Cyflawni'r model partneriaeth integredig ar gyfer diogelu iechyd a nodir yng Nghynllun Diogelu Iechyd Caerdydd a'r Fro 2023/24
- Parhau i gryfhau ymgysylltiad strategol a gweithredol ar draws sefydliadau partner
- Darparu'r ymateb rhanbarthol i gynlluniau blaenoriaeth cenedlaethol: TB; HIV; HEP B ac C; y Frech Goch
- Diweddaru Cynllun Gweithredu Diogelu Iechyd ar gyfer 2024-25
- Cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Adfer ar y Cyd Hepatitis (B ac C)

## Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Diogelu Iechyd a ddiweddarwyd ar gyfer 2024-25<br>• CLG yn ei le rhwng SRS a'r BIP |
| Ch2 | • RhAS ranbarthol wedi'i diweddaru cyn y Gaeaf |
| Ch3<br>Ch4 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |

## Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)

- I'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd

# Ysgolion Iach Bro Morgannwg a Chynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy

**Arweinydd y tîm:** Kim Wilyman

**Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?**

- Sicrhau bod iechyd a lles plant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr cystal ag y gallant fod drwy weithio drwy'r ysgolion a'r lleoliadau gofal plant y maent yn eu mynychu.
- I bob ysgol ym Mro Morgannwg ymgysylltu'n llawn â'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd a Lles Emosiynol, drwy gynnal hunanwerthusiad a chyflwyno cynllun gweithredu

**Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?**

- Trwy flaenoriaethu ein gwaith gyda lleoliadau gofal plant ac ysgolion yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf, lle mae cyfraddau prydau ysgol am ddim ar eu huchaf
- Trwy hyrwyddo rhaglenni sy'n targedu'r rhai sy'n profi anghydraddoldeb, e.e. Talebau Cychwyn Iach, Rhaglen Bwyd a Hwyl

**Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?**

- Partneriaid o Gyngor Bro Morgannwg a'r GIG
- Partneriaid sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar (uwch dimau arwain, athrawon, staff cymorth, gweithwyr gofal plant)
- Partneriaid eraill fel Heddlu De Cymru (trwy'r Rhaglen School Beat) Llywodraeth Cymru, Consortiwm Canolbarth y De, Brook, sefydliadau ymbarél y blynyddoedd cynnar sy'n cefnogi lleoliadau)

**Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)**

- Nifer yr ysgolion sy'n darparu dull gweithredu ysgol gyfan tuag at les emosiynol
- Nifer y lleoliadau gofal plant sy'n cwblhau adran Maeth ac Iechyd y Geg o'r Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy

**Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?**

- Gostyngiad mewn gordewdra ymhlith plant yn ôl amddifadedd, fel y'i mesurir gan y Rhaglen Mesur Plant
- Cynnydd mewn presenoldeb disgyblion sy'n mynychu ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig

**Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)**

- Ar gyfer y Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy
    - Llyfr Ryseitiau Iach wedi'i greu a'i ddosbarthu ar draws lleoliadau gofal plant
    - Mae lleoliadau'n parhau i gael eu recriwtio a'u hasesu ar y cynllun
    - Prosiect Pantri Bwyd Iach wedi'i sefydlu gyda lleoliadau Dechrau'n Deg
    - Cwblhau meini prawf wedi'u diweddaru y Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy a'u defnyddio mewn lleoliadau
- Ar gyfer y Cynllun Ysgolion Iach
    - Rhoi'r fersiwn newydd o'r Cynllun Ysgolion Iach (sy'n dwyn ynghyd Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru a'r dull gweithredu ysgol gyfan tuag at iechyd a lles emosiynol) ar waith ym Mro Morgannwg
    - Cefnogi pob ysgol i ddatblygu hunanwerthusiadau a chreu cynlluniau gweithredu, er mwyn cynnal eu gwaith lles, ar ôl cwblhau cam cychwynnol y dull gweithredu ysgol gyfan tuag at iechyd a lles emosiynol

**Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)**

| | |
|---|---|
| Ch1 | Prosiect llyfr ryseitiau wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar |
| Ch2 | Lansiwyd Cynllun Ysgolion Hyrwyddo Iechyd a Lles Cymru ym Mro Morgannwg, a rhoddwyd manylion y cynllun i ysgolion a phartneriaid. |
| Ch3<br>Ch4 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |

**Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)**

- Parhau gyda'r ddau gynllun, gan addasu yn ôl yr angen yn unol â'r cynllun hirdymor

# Yr amgylchedd a chynaliadwyedd

**Arweinwyr y tîm:** Dr Tom Porter a Cheryl Williams

### Pa ganlyniadau yr ydym am eu cyflawni?

- Annog cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwella ansawdd aer a bioamrywiaeth
- Y BIP i liniaru ac ymaddasu'n briodol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd
- Creu amgylcheddau iach drwy'r system amgylchedd adeiledig a naturiol
- Meintioli effaith carbon ymyriadau atal

### Sut byddwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau yn ein camau gweithredu?

- Targedu camau gweithredu sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac ansawdd aer ymhlith poblogaethau â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai sydd mwyaf agored i niwed
- Gwella'r ffocws ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan ei bod yn cael ei defnyddio'n fwy ymhlith y cymunedau mwyaf difreintiedig, â llai o fynediad at geir; a gwella'r cyfleoedd i gerdded a beicio yn y cymunedau hyn
- Sicrhau bod yr effaith ar anghydraddoldebau yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu cynllun Prisio Defnyddwyr Ffyrdd Caerdydd
- Sicrhau bod anghydraddoldebau'n thema sydd wrth wraidd gwaith cynllunio addasiadau'r BIP, a'r polisïau cynllunio

### Gyda phwy y byddwn ni'n gweithio?

- Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Partneriaid Siarter Teithio Iach (drwy BGCau), Sustrans, Cycling UK

### Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella? (dangosyddion perfformiad allweddol)

- Cymedr $NA_2$ blynyddol yng nghanol dinas Caerdydd; a safleoedd Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau
- % y teithiau a wneir drwy ddulliau teithio cynaliadwy yng Nghaerdydd

### Sut y byddwn yn deall yr effaith ar anghydraddoldebau?

- Dadansoddi newidiadau yn $NO_2$ gan gymharu wardiau â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf, lle mae data ar gael
- Newid mewn defnyddwyr bysus

### Camau Gweithredu Blwyddyn 1 (2024-25)

- Parhau i ymgysylltu â Chyngor Caerdydd i sicrhau bod unrhyw gynllun Prisio Defnyddwyr Ffyrdd yn deg ac yn helpu i wella mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy
- Ymgysylltu â gweithwyr BIP Caerdydd a'r Fro ar deithio cynaliadwy a sut y gallwn leihau traffig a gwella ansawdd aer ar safleoedd Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, fel rhan o'r gwaith o weithredu Siarter Teithio Iach Lefel 2
- Arwain Grŵp Siarter Teithio Iach o lofnodwyr y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd a'r Fro
- Deall y waelodlin ar gyfer ymaddasu i'r hinsawdd yn BIP Caerdydd a'r Fro, a datblygu cynllun ymaddasu
- Deall y waelodlin ar gyfer bioamrywiaeth ar ystâd y Bwrdd Iechyd a pharhau i weithredu argymhellion o adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
- Amcangyfrif o'r effaith ar garbon yn sgil atal, gan ddefnyddio llwybr diabetes i ddatblygu dull gweithredu
- Cyfrannu at adnewyddu Cynlluniau Datblygu Lleol Caerdydd a'r Fro

### Cerrig Milltir Blwyddyn 1 (2024-25)

| | |
|---|---|
| Ch1 | • Sefydlu panel gweithwyr y BIP i ymgysylltu ar deithio cynaliadwy<br>• Sefydlu grŵp i edrych ar waelodlin ymaddasu'r BIP |
| Ch2 | • Cyhoeddi a chynnal adolygiad llenyddiaeth lwyd o gyfrifiadau carbon yn sgil atal<br>• Hwyluso gweithdy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i randdeiliaid ynglŷn â Chynllun ar Adnau Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd |
| Ch3 | Cerrig milltir Ch3 a Ch4 i'w pennu yn seiliedig ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd |
| Ch4 | |

### Camau Gweithredu Blwyddyn 2 a 3 (2025-26 a 2026-2027)

- Cyflawni ymrwymiadau Siarter Teithio Iach Lefel 2
- Pennu cwmpas cyflwyno lonydd beicio ar wahân ar safleoedd Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau
- Gweithredu cynllun ymaddasu i'r hinsawdd y BIP